CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

373/51

# ECONOMEG – EC3

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

(1¼ awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **unrhyw ddau** gwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod rhaid cyflwyno atebion clir, trefnus a graenus eu hiaith.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** **MAE GOSTYNGIADAU YN Y COSTAU CYNHYRCHU YN GOSTWNG PRIS CHWARAEWYR DVD**

*(a)* Eglurwch ystyr gwarged defnyddwyr *(consumer surplus)* a disgrifiwch, gyda chymorth diagram, sut y bydd gostyngiad yn y costau cynhyrchu yn effeithio ar y gwarged defnyddwyr yn y farchnad am chwaraewyr DVD. [10]

*(b)* Gyda chymorth diagramau, gwerthuswch y farn mai gostyngiad ym mhris ffilmiau DVD yw'r prif reswm dros y cynnydd yng ngwerthiant chwaraewyr DVD. [10]

**2.** **MAE'R LLYWODRAETH YN BWRIADU MYND Y TU HWNT I DARGED ALLYRIANNAU** *(emissions)* **KYOTO**

*(a)* Gan ddefnyddio dadansoddiad economaidd, eglurwch pam y bydd llywodraeth efallai yn cyflwyno mesurau i leihau llygredd diwydiannol. [10]

*(b)* Gwerthuswch y mesurau y gallai llywodraeth eu cyflwyno i leihau'r llygredd a achosir gan ddiwydiant. [10]

**3.** **EFALLAI Y BYDD YN RHAID I'R LLYWODRAETH GYNYDDU TRETHI YN Y DYFODOL AGOS**

*(a)* Gan ddefnyddio diagramau priodol, eglurwch sut y gallai cynyddu trethi ar incwm **a** gwariant effeithio ar wariant defnyddwyr. [10]

*(b)* Trafodwch yr effeithiau posibl ar economi'r DU o gael symudiad o drethi ar incwm tuag at drethi ar wariant. [10]

**4.** **MAE BUDDSODDIANT GAN GWMNÏAU SECTOR PREIFAT Y DU YN RHY ISEL**

*(a)* Eglurwch y ffactorau sy'n effeithio ar lefel buddsoddiant yn economi'r DU. [10]

*(b)* Trafodwch y farn y bydd mwy o wariant buddsoddiant a llai o wariant defnyddwyr o fudd *(benefit)* i economi bob amser. [10]

**5.** **MAE LLYWODRAETH Y DU YN CAEL TRAFFERTH I GYFLAWNI EI HAMCANION MACRO-ECONOMAIDD I GYD**

*(a)* Pam mae'n bwysig i Lywodraeth y DU gyflawni ei hamcanion macro-economaidd? [10]

*(b)* Gyda chymorth diagramau, gwerthuswch y farn **nad** yw'n bosibl efallai cyflawni'r amcanion macro-economaidd hyn i gyd ar yr un pryd. [10]

**6.** **MAE ANGEN I BUNT Y DU OSTWNG MEWN PERTHYNAS Â DOLER YR UNOL DALEITHIAU**

*(a)* Gan ddefnyddio diagramau priodol, eglurwch y ffactorau sy'n pennu *(determine)* cyfradd cyfnewid y bunt mewn perthynas ag ariannau cyfred fel doler yr Unol Daleithiau. [10]

*(b)* Gwerthuswch y farn y bydd gwerth uchel i'r bunt mewn perthynas â doler yr Unol Daleithiau o fudd i ddefnyddwyr **a** gweithwyr y DU. [10]